Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

12 Mehefin 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

12 Mehefin 2019

**Awduron:**
Sara Moran a Natasha Cowley

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........................................................................................1**

**2. Datblygiadau yn San Steffan ........................................................ 2**

Amserlen digwyddiadau 2

Deddfwriaeth Brexit 4

Fframweithiau Cyffredin 6

Ardal Deithio Gyffredin 7

**3. Datblygiadau ym Mrwsel ............................................................ 9**

Canlyniadau Etholiadau Senedd Ewrop 2019 9

ASEau Cymru a Brexit 10

Y camau nesaf ar gyfer Senedd Ewrop 11

Y camau nesaf 11

**4. Datblygiadau yng Nghymru.........................................................12**

Prif Weinidog Cymru 12

Datganiadau gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: 14

Y Cydgyngor Gweinidogion 17

Cyllid Pontio'r Undeb Ewropeaidd 17

Y Cynulliad yn trafod refferendwm pellach 17


**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 12 Mehefin 2019


**5. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.................................................................18**

Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA) 18

Diweddariad ar wladolion yr UE a chyllid myfyrwyr 18

Awdurdod Monitro Annibynnol i gael ei sefydlu yn Abertawe 18

Datganiad Llywodraeth Cymru ar Brexit a'n hymateb i'r ymgynghoriad tir 19

**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 12 Mehefin 2019

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Thrafodaethau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 12 Ebrill 2019. Mae ein **Hadroddiad Monitro Brexit blaenorol** yn rhoi crynodeb o ddigwyddiadau cyn hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu:

- Crynodeb o'r datblygiadau allweddol yn San Steffan a Brwsel;
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf; a
- Dadansoddiad o'r materion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor).

# 2. Datblygiadau yn San Steffan

Ar 24 Mai, **cyhoeddodd y Prif Weinidog** y byddai'n ymddiswyddo ar ddydd Gwener 7 Mehefin. Bydd y Blaid Geidwadol yn cychwyn ei phroses i ethol arweinydd o ddydd Llun 10 Mehefin ac mae wedi cyhoeddi y **bydd arweinydd newydd yn ei le erbyn 22 Gorffennaf.** Mae'r adran isod yn disgrifio digwyddiadau yn y cyfnod cyn cyhoeddiad y Prif Weinidog.

## Amserlen digwyddiadau

Ar 1 Mai, **pwysleisiodd y Prif Weinidog** ei bod yn gobeithio y bydd y DU yn gadael yr UE ymhell cyn y terfyn amser, sef 31 Hydref, yn ystod sesiwn graffu gan Bwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin. **Gofynnodd David TC Davies AS a yw Cymru yn barod** ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' ac a ellid rhoi cymorth arbennig i ffermwyr ŵyn Cymru sy'n ddibynnol iawn ar allforion. Atebodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth y DU wedi cynnwys y llywodraethau datganoledig yn yr holl baratoadau ac meddai hefyd:

> One of the aspects that we have been considering as a Government is looking at those areas which could be particularly affected in a no-deal situation and the extent to which it would be appropriate for Government to act in those circumstances. That is a debate that continues.

Esboniodd y Prif Weinidog ei bod yn hyderus y bydd modd trafod y berthynas yn y dyfodol o fewn y cyfnod pontio sydd bellach yn fyrrach, ac sy'n dal i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020, a chydnabu'r posibilrwydd o Reolaeth Uniongyrchol yng Ngogledd Iwerddon pe bai Brexit 'heb gytundeb'. Amlygodd hefyd fod darpariaethau'r Cytundeb Ymadael yn caniatáu estyniad pellach ar y cyfnod hwn, os oes angen.

Ar 14 Mai, teithiodd negodwr Brexit y Prif Weinidog, Olly Robbins, i Frwsel i drafod newidiadau posibl i'r **Datganiad Gwleidyddol** sy'n nodi'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Ar yr un diwrnod, **cadarnhaodd y Prif Weinidog** y byddai pleidlais ar Fil y Cytundeb Ymadael yn cael ei chynnal yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin. Dywedodd **Ysgrifennydd Brexit yr Wrthblaid, Syr Keir Starmer**, wrth Dŷ'r Cyffredin ar 16 Mai na fydd y blaid Lafur mewn sefyllfa i gefnogi Bil y Cytundeb Ymadael pan gaiff ei gyflwyno.



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 12 Mehefin 2019

Ar 17 Mai, fe **ysgrifennodd Arweinydd yr Wrthblaid, Jeremy Corbyn at y Prif Weinidog** gan hysbysu y byddai'r trafodaethau trawsbleidiol yn dod i ben heb ddod i gyfaddawd ar ôl chwe wythnos o drafod. Ar 19 Mai, **esboniodd y Prif Weinidog** y byddai'r Cabinet yn ystyried cynnal trydydd cylch o bleidleisiau dangosol cyn Bil y Cytundeb Ymadael, ac mai'r bwriad oedd 'test support for possible solutions would be useful as a prelude to MPs considering the legislation'.

Ar 21 Mai, **cyflwynodd y Prif Weinidog 'gytundeb Brexit newydd'** y gobeithiai y byddai'n cael cefnogaeth gan fwyafrif yn y Senedd, a hithau'n datgan:

> The challenge of taking Brexit from the simplicity of the choice on the ballot paper to the complexity of resetting the country's relationship with 27 of its nearest neighbours was always going to be huge. All the changes I have set out today have the simple aim of building support in Parliament to do that. I believe there is a majority to be won for a Brexit deal in the House of Commons.

Cyflwynodd y Prif Weinidog gynnig i ASau yn y Senedd a oedd yn cynnwys deg pwynt i'w cynnwys ym Mil y Cytundeb Ymadael:

1. Bydd y Llywodraeth yn ceisio cwblhau Trefniadau Amgen yn lle'r trefniant wrth gefn erbyn mis Rhagfyr 2020, fel na fydd angen ei ddefnyddio byth.
2. Ymrwymiad, os daw'r mesur wrth gefn i rym, y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn gyson â'i gilydd.
3. Bydd yn rhaid i'r ASau gymeradwyo'r amcanion negodi a'r cytundebau terfynol ar gyfer ein perthynas â'r UE yn y dyfodol.
4. Bil Hawliau Gweithwyr newydd sy'n gwarantu na fydd hawliau gweithwyr yn llai ffafriol nag yn yr UE.
5. Ni fydd lefel diogelu'r amgylchedd yn newid pan fyddwn yn gadael yr UE.
6. Bydd y DU yn ceisio masnach mor llyfn â phosibl mewn nwyddau gyda'r UE tra'i bod y tu allan i'r farchnad sengl ac yn dod â symudiad rhydd i ben.
7. Byddwn yn aros gyfuwch â rheolau'r UE ar gyfer nwyddau a chynhyrchion bwyd-amaeth sy'n berthnasol i wiriadau wrth y ffin gan ddiogelu'r miloedd o swyddi sy'n dibynnu ar gadwyni cyflenwi mewn union bryd.
8. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cyfaddawd ynghylch tollau i ASau benderfynu arno er mwyn dod â'r sefyllfa annatrys i ben.
9. Bydd pleidlais i ASau er mwyn penderfynu a ddylai'r cytundeb fod yn destun refferendwm.
10. Bydd dyletswydd gyfreithiol i sicrhau newidiadau i'r datganiad gwleidyddol sy'n

adlewyrchu'r cytundeb newydd hwn.

Mewn ymateb, trydarodd **Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru:**

> Ble mae'r "cynnig beiddgar" addawodd y PW? Mae'r ymrwymiad i ddiogelu hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol i'w groesawu, ond nid yw'r cynnig hwn yn rhoi eglurder o ran ein perthynas economaidd hirdymor â'r UE. Ni allaf weld hyn yn arwain at fwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin.

Y diwrnod canlynol ar 22 Mai, fe ymddiswyddodd Arweinydd Tŷ'r Cyffredin Andrea Leadsom o'r Llywodraeth mewn ymateb i'r cynllun. Ar 24 Mai, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai hithau hefyd yn ymddiswyddo ar ddydd Gwener 7 Mehefin. Daeth yr ymddiswyddiad yn dilyn cyfres o gyfarfodydd Cabinet ynghylch y cytundeb Brexit newydd:

> I negotiated the terms of our exit and a new relationship with our closest neighbours that protects jobs, our security and our Union. I have done everything I can to convince MPs to back that deal. Sadly, I have not been able to do so. I tried three times. I believe it was right to persevere, even when the odds against success seemed high. But it is now clear to me that it is in the best interests of the country for a new Prime Minister to lead that effort. So I am today announcing that I will resign as leader of the Conservative and Unionist Party on Friday 7 June so that a successor can be chosen.

Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> It is, and will always remain, a matter of deep regret to me that I have not been able to deliver Brexit. It will be for my successor to seek a way forward that honours the result of the referendum. To succeed, he or she will have to find consensus in Parliament where I have not. Such a consensus can only be reached if those on all sides of the debate are willing to compromise.

Bydd y Blaid Geidwadol yn cychwyn ei phroses i ethol arweinydd o ddydd Llun 10 Mehefin ac mae wedi cyhoeddi y **bydd arweinydd newydd yn ei le erbyn 22 Gorffennaf.**

## Deddfwriaeth Brexit

Yn wreiddiol roedd Llywodraeth y DU wedi bwriadu cyhoeddi **Bil y Cytundeb Ymadael** ar 24 Mai, a hithau wedi dweud **datgan bwriad i'w gyhoeddi** yn ystod yr wythnos a fyddai'n dechrau ar 3 Mehefin. Ar 28 Mai, mewn ymateb i gwestiynau a oedd yn gofyn a fyddai'r Llywodraeth yn parhau â'i chynlluniau i gyflwyno'r ddeddfwriaeth gerbron yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ei bod yn bwriadu ymddiswyddo, **dywedodd llefarydd y Prif Weinidog,** 'We now have to reflect on the fact that we're in a different position'. Ym Mrwsel ar 28 Mai, **dywedodd y Prif Weinidog** mewn ymateb i gwestiwn am y mater, '(It is) now for my successor and they will have to find a way of addressing the very strongly held views on both sides of this issue'.





Mae'r **Bil Masnach** wedi pasio ei gamau yn Nhŷ›r Arglwyddi a bydd yn dychwelyd i Dŷ›r Cyffredin er mwyn iddo ystyried gwelliannau'r Arglwyddi ar ddyddiad sydd heb ei gyhoeddi eto. Mae'r Bil Masnach yn rhan o'r fframwaith cyfreithiol a fydd yn galluogi'r DU i ymrwymo i gytundebau masnach 'parhad' â gwledydd a blociau masnachu sydd â chytundebau â›r UE ar hyn o bryd. Ar 12 Mawrth, rhoddodd y Cynulliad ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil, wedi i Lywodraeth Cymru **osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** (PDF, 160 KB) yn ystod y mis blaenorol. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwelliannau ac ymrwymiadau anneddfwriaethol wedi ymdrin â'i phryderon blaenorol. Roedd y pryderon hyn yn gysylltiedig â gallu Gweinidogion y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig a chyfyngiadau ar allu Gweinidogion Cymru i ddeddfu i roi'r Bil ar waith mewn meysydd datganoledig. Gosodwyd **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** (PDF, 115 KB) pellach ar 10 Mai. Roedd hwn yn cynnwys gwelliant i'r Bil, a wnaed ar ôl y bleidlais ar 12 Mawrth, gan ehangu'r term 'is-ddeddfwriaeth' i gynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad hefyd. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai un o effeithiau hyn yw ehangu pwerau datganoledig o dan y Bil. Bydd y gofyniad i Lywodraeth Cymru ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil Masnach yn cael ei ddatgymhwyso mewn achosion lle gallai Gweinidogion Cymru wneud yr un peth mewn rheoliadau o dan un o Ddeddfau neu Fesurau'r Cynulliad. Argymhellodd Llywodraeth Cymru fod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil, gan ei bod o'r farn bod y gwelliant yn ei wneud yn well. **Bu'r Cynulliad yn trafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn** yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mai a chydsyniad deddfwriaethol y cytunwyd arno.

Mae **Bil Amaethyddiaeth** y DU yn darparu fframwaith cyfreithiol i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ac i sefydlu system yn y dyfodol ar gyfer cymorth amaethyddol a chymorth rheoli tir ar ôl Brexit. Ar hyn o bryd disgwylir am ddyddiad ar gyfer cyfnod adrodd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin. Gosododd Llywodraeth Cymru **Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** (PDF 163 KB) ar 26 Mawrth a oedd yn nodi bod gwelliannau ac ymrwymiadau anneddfwriaethol wedi ymdrin â'i phryderon. Roedd y pryderon hyn yn seiliedig ar y cwestiwn i ba raddau y mae cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli, a dosbarthiad yr ardoll cig coch. Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol pellach ar ôl i'r Bil basio drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, gan ystyried unrhyw welliannau eraill a wneir iddo.

Mae **Bil Pysgodfeydd** y DU yn disodli'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin â fframwaith deddfwriaethol yn y DU o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar y Gyfraith ar y Môr (UNCLOS). **Dywedodd Prif Weinidog Cymru wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ar 29 Ebrill fod rhywfaint o gynnydd cadarnhaol wedi'i wneud mewn perthynas â phryderon Llywodraeth Cymru ynghylch agweddau ar y Bil. Mae'r un pryder sy'n dal i fodoli'n gysylltiedig â Chymal 18, lle cynigir bod Ysgrifennydd Gwladol y DU yn pennu cwotâu ar gyfer cyfleoedd i bysgota yn nyfroedd y DU. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi sut y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio.

Mae dau Fil arall ynghylch Brexit mewn meysydd sydd heb eu datganoli yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. Disgwylir am ddyddiad ar gyfer cyfnod adrodd a thrydydd darlleniad y **Bil Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE)**. Bydd y Bil hwn yn rhoi terfyn ar y rhyddid i symud ac yn estyn rheolaethau mewnfudo i fod yn gymwys i ddinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir. Mae'n cynnwys amddiffyniad i ddinasyddion Gweriniaeth Iwerddon yng nghyfraith fewnfudo'r DU pan fydd y rhyddid i symud wedi ei ddiddymu, yn ogystal â phwerau i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch nawdd cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'r rheolau mewnfudo yn y dyfodol ar gyfer dinasyddion yr UE. Mae mewnfudo ei hun yn fater a gedwir yn ôl, ond bydd y Bil hwn yn berthnasol i ystod o feysydd polisi datganoledig, gan gynnwys y GIG, gofal cymdeithasol, addysg uwch a rhai diwydiannau penodol.

Cyflwynwyd y **Bil Gwasanaethau Ariannol (Gweithredu Deddfwriaeth)** yn Nhŷ'r Arglwyddi ac ar hyn o bryd disgwylir am ddyddiad ar gyfer ei gyfnod adrodd a'i drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Bydd y Bil yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud darpariaeth drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth benodol gan yr UE ynghylch gwasanaethau ariannol a gaiff ei mabwysiadu hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

## Fframweithiau Cyffredin

Ar 20 Mai, **cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, ddatganiad ysgrifenedig** a oedd yn hysbysu'r Aelodau bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei thrydydd adroddiad ar faterion sy'n ymwneud â fframweithiau cyffredin a'r defnydd a wneir gan Lywodraeth y DU o bwerau adran 12 y Ddeddf (y 'pwerau rhewi' fel y'u gelwir). Mae Adran 3 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd bob tri mis a rhannu'r adroddiad hwn gyda'r llywodraethau datganoledig. Mae'r **adroddiad, a gyhoeddwyd ar 16 Mai,** yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn y cyfnod adrodd rhwng 26 Rhagfyr 2018 a 25





Mawrth 2019 (mae'r **adroddiad cyntaf** a'r **ail adroddiad** ar gael hefyd).

Ar 24 Mai, darparodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ymateb i **Lythyr y Cadeirydd dyddiedig 7 Mai.** Roedd y llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am farn Llywodraeth Cymru ynglŷn â dadansoddiad diwygiedig Llywodraeth y DU o'r fframweithiau. Roedd y llythyr yn cydnabod, er bod cynnydd cryf wedi'i wneud ar fframweithiau cyffredin a materion llywodraethu yn gyffredinol, 'there remain some fundamental issues to be resolved before individual Frameworks can be subject to wider consultation and discussion and then be brought to completion'. Dywedodd hefyd y bydd telerau ymadawiad y DU â'r UE yn ffactor hollbwysig.

## Ardal Deithio Gyffredin

Ar 8 Mai, fe ymrwymodd y DU ac Iwerddon i **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth arall ynghylch yr Ardal Deithio Gyffredin (CTA).** Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw'r cytundeb diweddaraf rhwng y ddwy wlad i ailddatgan hawliau dinasyddion Prydain ac Iwerddon i symud yn rhydd o fewn Iwerddon, y DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw heb wiriadau pasbort. Mae'r Ardal Deithio Gyffredin yn drefniant hirsefydlog sy'n dyddio'n ôl i annibyniaeth Iwerddon ym 1922, er bod ei enw wedi newid dros amser.

Pwrpas Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diweddaraf yw:

- ailddatgan statws a hawliau dinasyddion Prydain ac Iwerddon yng ngwladwriaethau ei gilydd;
- rhoi sicrwydd ac eglurder i ddinasyddion Prydain ac Iwerddon yng ngwladwriaethau ei gilydd;
- cadarnhau y bydd y ddwy lywodraeth yn cymryd camau i sicrhau bod yr hawliau a'r breintiau yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn eu priod systemau cyfreithiol;
- cadarnhau y bydd gwaith ar y cyd i gynnal a gwella fframweithiau ar gyfer cydweithredu yn parhau.

Mewn **datganiad ar y cyd a oedd yn cyd-fynd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth,** eglurodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Iwerddon:

> For generations, Irish and British people have moved seamlessly between our countries, and developed deep and lasting ties. Although predating it, the CTA has also underpinned the Belfast / Good Friday Agreement. The CTA has and will continue to enhance and nurture bilateral relations between our countries.

Mae hawliau a breintiau cyfatebol yn gysylltiedig â'r Ardal Deithio Gyffredin sy'n cael eu harfer gan ddinasyddion y DU sy'n byw yn Iwerddon a dinasyddion Gwyddelig sy'n byw yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at gyflogaeth, gofal iechyd, addysg, hawliau nawdd cymdeithasol, tai cymdeithasol a'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau seneddol cenedlaethol ar yr un sail â dinasyddion y wladwriaeth arall.





# 3. Datblygiadau ym Mrwsel


Ar 15 Ebrill, fe wnaeth llefarydd ar ran **Senedd Ewrop gadarnhau** y byddai'n cynnal 'sesiwn eithriadol' i gadarnhau'r Cytundeb Ymadael pe bai'r DU yn cymeradwyo'r testun rhwng nawr a mis Gorffennaf. Byddai hynny'n golygu galw'r Senedd yn ôl yn seiliedig ar ei haelodaeth bresennol, sy'n golygu y byddai ASEau na chawsant eu hail-ethol neu sydd wedi ymddeol yn gorfod dychwelyd am un tro olaf.

Ar 16 Ebrill mewn a **araith i Senedd Ewrop,** rhoddodd Donald Tusk wybodaeth i ASEau am yr oedi diweddaraf gyda Brexit. Erfyniodd hefyd ar yr Aelod-wladwriaethau i beidio â thrin y DU fel 'gwladwriaeth eilradd' rhwng nawr a 31 Hydref ac i barchu'r oedi newydd.


Hefyd ar 16 Ebrill, fe wnaeth y Comisiwn Ewropeaidd **gyhoeddi Datganiad** ar gyfer Cyfarfod Llawn Senedd Ewrop. Mae'r Datganiad yn nodi swyddogaeth amryw weithgorau Brexit, dymuniad y Comisiwn i barhau i gydweithio'n agos gyda'r Senedd fel y maent wedi'i wneud trwy gydol y trafodaethau ac i ystyried ei safbwynt yn llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

## Canlyniadau Etholiadau Senedd Ewrop 2019

Rhwng 23 a 26 Mai, pleidleisiodd pobl ym mhob un o 28 Aelod-wladwriaeth yr UE i ethol **Aelodau Senedd Ewrop** ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld **ar wefan Senedd Ewrop.** Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd wedi **cynhyrchu blog** ar y canlyniadau hefyd. Dyma'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn ôl canran y bleidlais ers 2014 a dyraniad y seddau ar gyfer ASEau newydd Cymru:



Mae gan y DU 73 o seddau yn Senedd Ewrop, a'r rheiny wedi'u rhannu rhwng **12 rhanbarth etholiadol**. **Yn 2019, 36.9% oedd y ganran a bleidleisiodd,** sy'n uwch na'r 35.4 y cant a bleidleisiodd yn **etholiadau 2014.** Cyn iddi ymddiswyddo, roedd y Prif Weinidog wedi gobeithio na fyddai ASEau'r DU a etholwyd ar 23 Mai byth yn gorfod cymryd eu seddau. Fodd bynnag, mae hyn bellach yn annhebygol oherwydd y broses i ethol arweinydd y Blaid Geidwadol, gyda **Phrif Weinidog newydd i fod i gael ei gyhoeddi ar 22 Gorffennaf.** Mae'r canlyniadau llawn ar gyfer y DU ar gael ar **wefan y BBC**. Mae canlyniadau'r DU yn ôl canran o gyfanswm y pleidleisiau ers 2009 fel a ganlyn:




## ASEau Cymru a Brexit

Ar ôl y dyddiad newydd ar gyfer ymadawiad y DU, sef 31 Hydref (neu cyn hynny, os ceir cytundeb), bydd y DU yn rhoi'r gorau i'w chynrychiolaeth yn sefydliadau'r UE, sy'n golygu na fydd ASEau Cymru yn eistedd yn Senedd Ewrop mwyach. Rhwng y diwrnod ymadael a mis Rhagfyr 2020 (y cyfnod pontio), bydd Cymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gyfreithiau'r UE, ond ni fydd bellach yn rhan o brosesau penderfynu'r UE. Bydd presenoldeb ASEau'r DU yn effeithio ar y ffordd y caiff grwpiau gwleidyddol yn y Senedd eu ffurfio, a'r dyraniadau cyllid ar eu cyfer, gan gynnwys ethol Llywydd y Senedd. Os bydd ASEau gan y DU dros yr haf, gallai hyn hefyd ddylanwadu ar y broses o ddethol Llywydd nesaf y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd ASEau'r DU yn parhau yn eu lle os caiff y dyddiad ar gyfer gadael ei ohirio eto y tu hwnt i 31 Hydref.





## Y camau nesaf ar gyfer Senedd Ewrop

Mae Senedd Ewrop wedi cyhoeddi llinell amser newydd o ddyddiadau allweddol. Bydd cyfarfod llawn cyntaf Senedd Ewrop yn cael ei gynnal ar 2 Gorffennaf ar ôl i'w grwpiau gwleidyddol gael eu ffurfio. Mae gan Senedd Ewrop rôl yn y broses o ddewis uwch swyddi allweddol yr UE. Erbyn diwedd 2019, bydd pump o'r swyddi uchaf yn dod yn wag. Mae angen llywyddion ar gyfer Senedd Ewrop, y Cyngor, y Comisiwn a Banc Canolog Ewrop, yn ogystal ag uchel gynrychiolydd polisi tramor newydd.  Trwy gydol yr haf, bydd ASEau yn ethol Llywydd newydd ar gyfer Senedd Ewrop ac yn penodi Is-lywyddion. Cynhelir yr etholiad ar gyfer Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd ar 4 Gorffennaf, ar yr amod bod y Cyngor Ewropeaidd yn cytuno ar enwebai erbyn diwedd mis Mehefin. Yn ystod mis Medi a mis Hydref, penodir y Coleg Comisiynwyr newydd (arweinyddiaeth wleidyddol y Comisiwn Ewropeaidd) ac o fis Tachwedd ymlaen, bydd Llywydd newydd Cyngor Ewrop yn ei swydd.

## Y camau nesaf

**Cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 20-21 Mehefin** yw'r cyfle nesaf i'r UE fynd ati'n ffurfiol i adolygu'r cynnydd gyda thrafodaethau Brexit. Ar 10 Mai, dywedodd **Llywydd y Senedd Ewropeaidd, Guy Verhofstadt,** nad yw'n gwybod a fydd Brexit yn mynd yn ei flaen. Dywedodd **Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk,** yntau fod y siawns na fydd Brexit yn mynd yn ei flaen yn "20-30%", gan ddisgrifio hon fel siawns 'fawr'.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Prif Weinidog Cymru

Ar 13 Ebrill, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru **siarad yng nghynhadledd Llafur Cymru.** Beirniadodd y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â thrafodaethau Brexit, gan ddweud bod y perygl o Brexit 'heb gytundeb' yn parhau. Aeth Prif Weinidog Cymru ymlaen i nodi bod y risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit wastad wedi bod yn fwy i Gymru na rhannau eraill o'r DU, a bod y risgiau hyn yn cael eu gwaethygu gan effaith cyni cyllidol. Dywedodd hefyd, 'whether we stay or go, we are Europeans here in Wales.'

Ailadroddodd y farn hon ar 29 Ebrill, yn ystod sesiwn graffu gyda'r **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** a dywedodd na ddylai'r amser sydd ar ôl cyn y terfyn amser newydd ym mis Hydref gael ei wastraffu. Dywedodd fod Llywodraeth y DU yn fwy agored i drafodaethau ehangach nag y buont o'r blaen. Nododd eto safbwynt Llywodraeth Cymru y dylai'r penderfyniad gael ei gyfeirio'n ôl at y bobl mewn ail refferendwm os na fydd Tŷ'r Cyffredin yn gallu cefnogi cytundeb a dywedodd fod swyddogion canlyniadau etholiadol yng Nghymru yn barod ar gyfer y posibilrwydd hwn.

Ynglŷn â'r Cydbwyllgor Gweinidogion, mynegodd anfodlonrwydd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Llundain a phwysleisiodd bwysigrwydd datblygu mecanwaith datrys anghydfodau annibynnol ar gyfer y pedair gwlad, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'r grym i gyd wedi'i grynhoi mewn un wlad. Dywedodd fod y gwaith ar yr adolygiad ffurfiol o'r Cydbwyllgor Gweinidogion wedi bod yn araf oherwydd bod Brexit yn 'gorlenwi'r agenda'. Ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, dywedodd nad oedd fawr ddim gwybodaeth o hyd ac nad oedd unrhyw gynigion penodol wedi'u cyflwyno.

O ran cytundebau masnach, cadarnhaodd y Prif Weinidog, ers 15 Mawrth, fod Llywodraeth Cymru wedi gweld cytundebau cyn iddynt gael eu harwyddo, yn ogystal â chael y cyfle i gyfrannu o safbwynt Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cytundeb gan Lywodraeth y DU y bydd **fforwm gweinidogol newydd ar gyfer masnach ryngwladol** ar ôl Brexit.

Ar 9 Mai, **traddododd Prif Weinidog Cymru araith** yn y Sefydliad Llywodraeth yn Llundain, ar ddyfodol datganoli ar ôl Brexit, lle siaradodd am heriau posibl yn y dyfodol i gyfansoddiad y DU a sut y gallai Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig weithio gyda'i gilydd yn y dirwedd ar ôl Brexit. Pwysleisiodd



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 12 Mehefin 2019

bwysigrwydd sicrhau bod gan Gymru lais mewn trafodaethau o'r dechrau, gan ddweud:

> The way that the United Kingdom prospers in the future is by having a negotiated space where those things can come together, where ministers from different parts of the United Kingdom are able to reach agreement, where there is independent mechanism for when agreement cannot be reached and where the United Kingdom operates on the basis of dispersed sovereignty rather than on the basis that there is only one source of sovereignty, which whenever you like is able to be wheeled onto the stage to trump everything else.

Pan ofynnwyd iddo beth oedd yn ei ddisgwyl gan Lywodraeth y DU o ran trafodaethau masnach a'r gwledydd datganoledig, dywedodd:

> Devolved administrations have to be involved through the whole of that process and when the UK Government is developing its negotiating mandate we have to be part of that discussion. And, that when the UK Government comes to negotiate on the basis of that mandate, that when devolved competencies are at stake we must be in the room.

Yn ystod **Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 14 Mai** soniodd y Prif Weinidog am baratoadau storio ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'. Dywedodd fod cyflenwadau meddygol yn cael eu storio i sicrhau parhad y cyflenwad a bod y sector bwyd yn gweithio hyd eithaf ei gapasiti i liniaru materion a allai ddeillio o Brexit 'heb gytundeb'. Ynglŷn â bwyd, dywedodd:

> Cyn belled ag y mae'r siopau yn y cwestiwn, ni fydd gan bobl yr amrywiaeth a'r dewis o gynnyrch y maen nhw wedi dod i'w mwynhau yn ystod ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd os byddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb. A bydd y rhai hynny yng Nghymru sy'n dibynnu ar gynhyrchu bwyd sy'n cael ei allforio i'r Undeb Ewropeaidd yn gweld bod eu busnesau mewn perygl i'r un graddau os byddan nhw'n wynebu rhwystrau newydd yn sydyn—nid o ran tariffau ond o'r math nad ydynt yn dariffau—a fydd yn golygu y bydd bygythiad sylweddol iawn i rannau helaeth o gynhyrchwyr bwyd Cymru

Yr wythnos ganlynol yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog, **rhoddodd y Prif Weinidog ddiweddariad** ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Dywedodd fod cyfarfodydd wedi'u cynnal yng Nghaerdydd yn ystod yr wythnos flaenorol rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Stephen Barclay; a hefyd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol, Liam Fox.

Mewn ymateb i gyhoeddiad y Prif Weinidog Theresa May ar gynnwys arfaethedig Bil y Cytundeb Ymadael, trydarodd **Prif Weinidog Cymru:**

> Ble mae'r "cynnig beiddgar" addawodd y PW? Mae'r ymrwymiad i ddiogelu hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol i'w groesawu, ond nid yw'r cynnig hwn yn rhoi eglurder o ran ein perthynas economaidd hirdymor â'r UE. Ni allaf weld hyn yn arwain at fwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin.

Yn dilyn yr etholiadau Ewropeaidd rhyddhaodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ar Twitter** ar 27 Mai a oedd yn dweud bod newid arweinydd y Blaid Geidwadol yn cynyddu'n aruthrol y siawns o gael Brexit heb gytundeb. Ar 28 Mai ymddangosodd Prif Weinidog Cymru ar **BBC Radio Wales.** Ailadroddodd ei gred bod Brexit 'heb gytundeb' yn fwyfwy tebygol ac eglurodd safbwynt Llafur Cymru:

> Rwyf bellach wedi dod i'r casgliad mai'r unig ffordd y gallwn geisio sicrhau dyfodol i Gymru na fyddai'n drychineb yw rhoi'r penderfyniad hwn yn ôl i'r bobl mewn refferendwm.

Aeth ymlaen i ddweud:

> Faced with the damage of a hard-line, Tory Brexit, Welsh Labour believes that the final decision must be made by the public in a referendum. And, for the avoidance of any doubt, a Welsh Labour Government would campaign, in such a vote, for Wales to remain in the EU.

Ar **4 Mehefin yn y Cyfarfod Llawn** holwyd Prif Weinidog Cymru am ei safbwynt ar ail refferendwm. Dywedodd

> Gyda'r posibilrwydd o gytundeb wedi diflannu, yna rhoi'r dewis yn ôl i'r bobl, fel y dywedodd y Cynulliad hwn, yw'r unig ddewis.

Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i wneud paratoadau angenrheidiol ar gyfer refferendwm a bod y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, wedi trafod y mater ar dri achlysur gyda'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, David Lidington.

## Datganiadau gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit:

Ar 30 Ebrill 2019, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn**. Roedd y datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr estyniad diweddaraf i Erthygl 50 ac ymateb diwygiedig Llywodraeth Cymru o ran paratoadau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb':

> Yn sgil yr estyniad, rydyn ni wedi addasu dwyster ein paratoadau. Fe fyddwn ni, wrth gwrs, yn adolygu hyn yn gyson, ond yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid inni baratoi, mae hefyd angen inni reoli'n hadnoddau mewn ffordd gyfrifol ac ymateb pan fo'r manylion yn newid.



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 12 Mehefin 2019

Roedd y datganiad yn cadarnhau bod Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn am wneud paratoadau pe bai ail refferendwm yn cael ei gynnal.

Roedd y datganiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau rhynglywodraethol parhaus ynghylch y Cydbwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a mewnbwn y llywodraethau datganoledig yn esblygiad y Datganiad Gwleidyddol. Rhoddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar yr anghytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch materion a gadwyd yn ôl / materion datganoledig a chadarnhaodd ei fwriad i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol ar fater ehangach 'parchu'r setliad datganoli'.

Cyn cynhadledd pedair gwlad ar 'Brexit, Devolution and Civil Society' yn Belfast ar 2 Mai, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit **Jeremy Miles** fod 'Llywodraeth Cymru yn credu yn yr Undeb, ond rydyn ni'n credu bod rhaid iddo newid.' Eglurodd:

> Mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn creu tensiynau newydd a sylfaenol i'n cyfansoddiad a'r berthynas rhwng llywodraethau. Bydd datrys y tensiwn hwn yn bwysicach nag erioed wrth i ni symud o negodi telerau ein hymadawiad at negodi ein perthynas yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd a'r byd yn ehangach.
>
> Wrth gwrs, rhaid i ni barhau i drafod yn gadarn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed wrth i'r amgylchedd weithio newydd ddatblygu. Os yw cyfansoddiad y Deyrnas Unedig i wrthsefyll y pwysau sy'n dod yn sgil Brexit a datblygu mewn ffordd sy'n gweithio i bob un, mae'n rhaid i Gymru chwarae rhan gwbl ganolog.

Ailadroddodd alwad Llywodraeth Cymru am y canlynol:

- pwerau sylweddol gryfach i'r gweinyddiaethau datganoledig mewn meysydd fel yr amgylchedd, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a llawer mwy;
- sefydlu Cyngor Gweinidogion y DU
- gwell ffordd o ddatrys anghydfodau, gan gynnwys cynnig ar gyfer trefn gymrodeddu annibynnol; a
- confensiwn cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig, i roi sylw i'r ffordd y mae angen i gyfansoddiad y DU newid.

Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yr wybodaeth ddiweddaraf i'r **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ar 3 Mehefin, gan nodi:

- Bod Llywodraeth Cymru yn credu bod y posibilrwydd o adael mewn senario Brexit meddal yn fwyfwy annhebygol ac mai'r opsiwn a ffefrir ganddi yw estyniad pellach i ddarparu amser ar gyfer ail refferendwm.
- Y byddai diddymu Erthygl 50 yn gam difrifol iawn ac na fyddai ond ar gael fel dewis i'r DU pe bai'n bwriadu aros yn yr UE ac nid fel modd i gynyddu'r amser i drafod ei thelerau ymadael ymhellach.
- Bod paratoadau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' bellach yn cynyddu unwaith eto, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i risgiau sy'n deillio o adael yn yr hydref, yn hytrach nag yn y gwanwyn.
- Bod yr amser ychwanegol a gynigir gan yr estyniad wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni 'ymarferion gwersi a ddysgwyd'. Dywedodd fod 'trafodaethau aml a manwl' yn cael eu cynnal gyda gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid a bod materion o ran cadwyni cyflenwi'n cael eu harchwilio.
- Nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld fersiwn derfynol Bil y Cytundeb Ymadael cyn ei chyhoeddi a nododd y bygythiad i ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â Brexit pe bai'r Senedd yn cael ei rhagderfynu.
- Na chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch cynnwys nac amseriad ymgynghoriad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mewn **datganiad yn y cyfarfod llawn ar 4 Mehefin**, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit:

> Fel Llywodraeth, byddwn yn awr yn ymgyrchu i aros yn yr UE. Ac er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd, dylai Senedd San Steffan nawr ddangos y dewrder i gyfaddef ei bod mewn merddwr a deddfu ar gyfer refferendwm, gydag 'aros' ar y papur pleidleisio. Rydym ni wedi bod yn galw ers misoedd ar i Lywodraeth y DU wneud paratoadau rhag ofn y byddai angen refferendwm. Nawr rhaid i'r Senedd wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd.
>
> Gadewch imi fod yn hollol glir: bydd unrhyw gytundeb yn gofyn am fandad newydd gan yr etholwyr, ac mae'n rhaid i'r angen am adael heb gytundeb gael un hefyd. Ac, wrth gwrs, rhaid i unrhyw refferendwm gynnwys aros yn yr UE fel dewis.

O ran paratoadau ar gyfer Brexit, dywedodd ei bod yn 'parhau'n wir nad oes modd lliniaru'n llawn ar effeithiau gadael heb gytundeb ar Gymru'.





## Y Cydgyngor Gweinidogion

Ar 9 Mai, cynhaliwyd cyfarfod y Cydgyngor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn Llundain. **Cyhoeddwyd Neges ar y Cyd** yn dilyn y cyfarfod a honno'n manylu ar y rhai a oedd yn bresennol a chrynodeb o'r hyn a drafodwyd, gan gynnwys diweddariad ar ymadawiad y DU gan David Lidington AS a rôl y llywodraethau datganoledig yng ngham nesaf y trafodaethau. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod materion domestig, gan gynnwys diweddariad ar fframweithiau cyffredin yn dilyn cyhoeddi'r **Dadansoddiad diwygiedig o Fframweithiau Cyffredin ar 4 Ebrill.**

## Cyllid Pontio'r Undeb Ewropeaidd

Ar 16 Ebrill, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at holl Aelodau'r Cynulliad yn rhoi diweddariad ar y cyllid a ddefnyddiwyd ar gyfer paratoadau Brexit. Mae'r **llythyr** (PDF, 279 KB) yn darparu diweddariadau ar swm canlyniadol Barnett, Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd (ETF) ac yn darparu rhestr o brosiectau sydd wedi'u cefnogi drwy'r ETF hyd yma. Mae Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd yn gyfanswm o £50 miliwn ac mae ar waith i gefnogi sefydliadau a chwmnïau allanol gyda Brexit. Mae'n dod o amrywiaeth o ffynonellau gan Lywodraeth Cymru. Mae £34 miliwn wedi'i ddyrannu hyd yn hyn.

Yn sgîl cyhoeddiad Llywodraeth y DU i wario arian ychwanegol ar barodrwydd ar gyfer Brexit, cafodd Llywodraeth Cymru symiau canlyniadol Barnett sy'n gyfanswm o £20.7m yn 2018-19 a £31.1.m yn 2019-20. Mae £10.4 miliwn o gyllid canlyniadol 2019-2020 eto i'w ddyrannu gan bod mwy o arian ar gael na'r disgwyl.

## Y Cynulliad yn trafod refferendwm pellach

Ar 5 Mehefin trafododd y Cynulliad a ddylai ddatgan ei gefnogaeth bendant i refferendwm pellach ar delerau ymadawiad y DU â'r UE. Cafodd **y cynnig canlynol ei basio:**

> Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan ei gefnogaeth ddiamwys i refferendwm cadarnhau ar ba delerau bynnag a gynigir gan unrhyw Brif Weinidog bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, a bod opsiwn ar y papur pleidleisio i barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

# 5. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA)

Cynhaliodd BIPA **ei 58fed sesiwn lawn** ar 13-14 Mai yn Nulyn gyda ffocws ar y newid yn yr hinsawdd a'r nodau datblygu cynaliadwy. Roedd y cyfarfod hefyd yn cynnwys galwad am ddiogelu Cytundeb Dydd Gwener y Groglith o'r ddeutu a gwaith Pwyllgorau BIPA. Mae BIPA yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i hybu cydweithrediad rhwng cynrychiolwyr gwleidyddol ym Mhrydain ac Iwerddon ac i adeiladu ar y berthynas agos a sefydlwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Ar 29 Mai, **cyfarfu Prif Weinidog Cymru a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol â Llysgennad Iwerddon** i'r DU yn y **ail-agor Conswliaeth Iwerddon yng Nghaerdydd** i drafod cynlluniau i adeiladu ar a chryfhau'r berthynas rhwng y ddwy wlad. Roedd y swyddfa wedi cau yn 2009 yn ystod yr argyfwng ariannol.

## Diweddariad ar wladolion yr UE a chyllid myfyrwyr

**Cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg yng Nghymru** ar 31 Mai y bydd gwladolion yr UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru am y flwyddyn academaidd 2020/21 yn gymwys i dalu'r un ffioedd dysgu â myfyrwyr o Gymru ac y byddant hefyd yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau gan Cyllid Myfyrwyr Cymru – yn amodol ar y meini prawf sydd eisoes yn eu lle o ran cymhwystra.

Mae hyn yn barhad o'r polisi presennol a bydd myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth nes y byddant yn gorffen eu cwrs.

## Awdurdod Monitro Annibynnol i gael ei sefydlu yn Abertawe

Ar 29 Mai, **Cyhoeddodd Alun Cairns, Ysgrifennydd Gwladol Cymru,** y bydd awdurdod newydd i fonitro hawliau dinasyddion yr UE yn cael ei sefydlu yn Abertawe pan fydd y DU yn gadael yr UE. Dywedodd y byddai'r Awdurdod Monitro Annibynnol (IMA) yn dod â hyd at 200 o swyddi i'r ardal. Bydd yr awdurdod yn cynnwys cyfreithwyr ac arbenigwyr cyfreithiol a fydd yn sicrhau hawliau dinasyddion yr UE yn y DU.

Cytunwyd ar yr IMA rhwng yr UE a'r DU fel rhan o'r Cytundeb Ymadael. Pan ofynnwyd iddo beth fyddai'n digwydd yn achos Brexit heb gytundeb, dywedodd Ysgrifennydd Cymru:



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 12 Mehefin 2019

> Even in a no-deal situation we would need to protect the rights of EU nationals that are living in the UK because everyone has said that we want a deep and special partnership with the European Union and the only way we can do that is to protect the rights of those EU nationals in a fair and balanced way.
>
> So, on that basis, this shows that there is the need for an independent body - a powerful organisation that will be based in Swansea as per the agreement that we've got across government.

## Datganiad Llywodraeth Cymru ar Brexit a'n hymateb i'r ymgynghoriad tir

Ar 4 Mehefin, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o'r ymatebion ymgynghori** i'w ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir' a oedd yn ceisio barn ynglŷn â'i chynigion i gefnogi rheolwyr tir ar ôl Brexit, ynghyd â'i **hymateb.**